Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Ffairfach**
**Ysgol Gynradd Ffairfach**
**Ffairfach**
**Llandeilo**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA19 6SY**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015**

**gan**


**Dorothy Morris**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/06/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Ffairfach yn cyfarfod mewn caban ar safle Ysgol Gynradd Ffairfach ger Llandeilo yn Sir Gaerfyrddin. Mae’r lleoliad ar agor am bum bore'r wythnos a thri phrynhawn yn ystod tymor yr ysgol.

Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru i gymryd hyd at 23 o blant fesul sesiwn. Ar hyn o bryd, mae 33 o blant dwy a thair oed ar y gofrestr, gyda phump ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi’i hariannu. Daw mwyafrif y plant o gartrefi lle mae’r Saesneg yn brif iaith. Mae ychydig o blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae pedwar aelod parhaol o staff. Maent yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach. Mae dau aelod ychwanegol o staff sy’n fyfyrwyr o dan hyfforddiant. Mae’r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers 1993.

Arolygwyd y feithrinfa ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yng Ngorffennaf 2013 a chan Estyn ym Mai 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol
- Mae'r addysgu effeithiol yn sicrhau mwynhad ac ymrwymiad gweithredol y plant yn eu dysgu
- Mae blaengareddau diweddar yn rhoi ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd cynnar y plant
- Mae safon ymddygiad y plant yn dda iawn
- Mae'r berthynas dda rhwng y plant a'r ymarferwyr yn hybu hyder y plant fel dysgwyr
- Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol y plant
- Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd hapus, gofalgar a chynhaliol i'r holl blant

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae'r arweinydd yn darparu cyfeiriad cadarn i waith y lleoliad
- Mae'r ymarferwyr yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn effeithiol
- Mae gan yr ymarferwyr agweddau cadarnhaol tuag at ddatblygiad proffesiynol
- Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn adnabod cryfderau a meysydd addas i'w datblygu
- Mae'r cynllun datblygu yn gosod blaenoriaethau priodol yn cynnwys datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ymhellach
- Mae swyddogion y pwyllgor rheoli yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn gydwybodol
- Mae'r bartneriaeth fuddiol gyda'r ysgol gynradd, y rhieni a'r gymuned yn cynorthwyo dysgu a lles y plant

## Argymhellion

A1. Cryfhau'r cynllunio i ymestyn medrau'r plant yn gyson

A2. Sicrhau bod gweithgareddau yn cynnig her briodol i blant o bob gallu yn gyson

A3. Gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth asesu wrth gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu

A4. Datblygu'r gweithdrefnau hunanarfarnu i ganolbwyntio yn fwy manwl ar y cynllunio a'r dysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio o fewn cylch o themâu sy'n gweddu i ystod oed a lefel datblygiad y plant. Mae'r holl ymarferwyr yn cyfrannu'n briodol at y cynlluniau cwricwlaidd sy'n hybu eu dealltwriaeth o'r gweithgareddau i'w cyflwyno. Mae cyfleoedd rheolaidd i'r plant gyfrannu eu syniadau megis i'r thema 'Gwersylla'.

Mae defnydd addas o fframweithiau, sydd wedi'u cysylltu'n briodol â gofynion y Cyfnod Sylfaen, ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth. Mae'r cynllunio yn drefnus ac yn gosod allan yr amcanion dysgu a'r gweithgareddau. Er hyn, nid oes digon o fanylder yn y cynllunio bob amser i sicrhau bod medrau'r plant yn cael eu hymestyn yn gyson.

Mae'r ddarpariaeth ddyddiol yn cynnig cyfleoedd addas ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau ehangach y plant ar draws y cwricwlwm. Mae anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio'u medrau cyfathrebu Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Mae defnydd pwrpasol o weithgareddau grŵp, er enghraifft, i hybu gwybodaeth y plant am batrymau brawddegau a geirfa benodol sy'n cael eu hatgyfnerthu'n effeithiol drwy ystod o weithgareddau ymarferol. Mae cyfleoedd cynhyrchiol i'r plant gyfrif a thrafod rhifau yn ystod gweithgareddau grŵp, amser cylch ac yn eu chwarae. Mae defnydd effeithiol o sesiynau coginio, er enghraifft, i hybu dealltwriaeth y plant o dermau mathemategol megis mawr a bach, trwm ac ysgafn. Mae cyfleoedd addas, er yn anwastad ar brydiau, i'r plant ddefnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn annibynnol i gwblhau gweithgareddau rhif, er enghraifft.

Mae medrau meddwl a datrys problemau'r plant yn cael eu datblygu'n briodol drwy brofiadau megis ymuno mewn helfa drysor yn yr ardal allanol gyda'r her ychwanegol o ddarganfod siapiau i greu lluniau cyflawn. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys profiadau pwrpasol i ddatblygu medrau trin offer bach y plant, megis pensiliau, sisyrnau a brwshys paent, mewn tasgau amrywiol.

Mae ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn cael ei ddatblygu'n effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Mae defnydd priodol o gyfraniad pobl o'r gymuned, megis aelodau'r heddlu a'r frigâd dan, i ymestyn profiadau dysgu'r plant.

## Addysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gadarn o ddatblygiad plant ac o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau addas sy'n llwyddo i ennyn diddordeb ac ymglymiad ymarferol y plant yn eu dysgu. Mae cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau o dan gyfarwyddyd ymarferwyr a'r gweithgareddau y mae'r plant yn eu dewis.

Mae rhediad da i'r sesiynau. Mae'r holl ymarferwyr yn rhyngweithio'n effeithiol gyda'r plant. Maent yn gwneud defnydd da o gwestiynu i gadarnhau'r dysgu'r ac o adborth llafar cadarnhaol. O ganlyniad, mae'r plant yn hyderus i ymuno yn yr ystod o weithgareddau sydd ar gael.

Mae'r ymarferwyr yn paratoi'r gweithgareddau yn drylwyr. Mae enghreifftiau o dasgau gyda ffocws sydd yn cyfateb yn effeithiol i anghenion dysgu'r plant ac yn darparu her briodol. Yn ystod gweithgareddau ymchwilio i ddarganfod pa wrthrychau sy'n arnofio neu suddo, er enghraifft, mae'r plant ieuengaf yn arbrofi yn annibynnol tra bod y plant hŷn yn cael cyfleoedd pwrpasol i ragfynegi a mynegi barn. Er hyn, nid yw'r cynllunio bob amser yn nodi'n glir sut mae gweithgareddau yn cael eu trefnu i sicrhau bod plant o bob gallu yn derbyn her briodol yn gyson.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymwybodol o'u datblygiad cyffredinol a'u hanghenion dysgu. Maent yn asesu eu cynnydd yn briodol drwy arsylwi, gan nodi agweddau arwyddocaol ar gardiau unigol sy'n gofnod priodol o gynnydd plant ar draws y meysydd dysgu. Mae casglu lluniau o'r plant yn ymwneud â'u gweithgareddau, a'u hanodi'n fanwl, yn gofnod defnyddiol. Mae defnydd priodol o'r wybodaeth ar gyfer cynllunio'r camau nesaf yn y dysgu mewn rhai agweddau ar y ddarpariaeth ond nid yw'r drefn wedi'i gwreiddio'n llawn.

Mae'r gweithdrefnau trosglwyddo yn cynnwys ymweliadau buddiol gan y plant â'u hysgolion newydd a thrafodaethau rhwng y staff. Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth berthnasol am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol a thrwy dderbyn adroddiadau manwl ac enghreifftiau o waith eu plant.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn gweithredu fel cymuned hapus a gofalgar. Mae ystod o bolisïau addas ar waith ac arferion dyddiol sefydledig sy'n hyrwyddo lles plant yn effeithiol. Mae trefniadau priodol mewn lle i annog plant i fwyta'n iach. Maent yn cynnwys darparu byrbrydau iachus yn cynnwys ffrwythau a llysiau.

Mae profiadau o ansawdd da yn hyrwyddo datblygiad personol y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae gwerthoedd, megis rhannu a dealltwriaeth o'r hyn sydd yn gywir a'r hyn sydd yn anghywir, yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol. O ganlyniad, mae'r holl blant yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn llwyddo i ffurfio perthynas dda â'u cymheiriaid ac yn hapus i rannu wrth weithio a chwarae ar y cyd. Mae'r cyfle i gynnig gweddïau, a chymryd rhan mewn dathliadau'r cynhaeaf a'r Nadolig yn y capel, er enghraifft, yn cyfrannu'n briodol at eu datblygiad ysbrydol a moesol. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau i gasglu arian at achosion da yn dysgu'r plant am bwysigrwydd gofalu am eraill.

Mae cyfleoedd addas i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol trwy ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a gŵyl Diwali. Mae gweithgareddau, megis dathlu Dydd Sant Padrig, a choginio a blasu bwydydd sy'n gysylltiedig â gwledydd gwahanol yn cyfrannu'n effeithiol at hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'r byd ehangach.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i'r plant ddysgu am gynaliadwyedd a phwysigrwydd gofalu am bopeth byw. Maent yn cynnwys tyfu a gofalu am blanhigion a chymryd rhan mewn gweithgareddau ailgylchu.

Mae gweithdrefnau addas ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol megis gwasanaethau meddygol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol sy'n trin pob plentyn yn gyfartal. Mae'r ymarferwyr yn creu ethos cynnes a chadarnhaol ac yn ymateb yn sensitif i'r holl blant. Maent yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r wybodaeth hon.

Mae nifer briodol o ymarferwyr profiadol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Ar y cyfan, mae digon o adnoddau i gefnogi'r dysgu ar draws y meysydd dysgu. Maent ar gael i'r plant sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol.

Mae'r adeilad o ansawdd da ac yn cynnig cyfleusterau addas. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd llawn o'r lle sydd ar gael trwy drefnu ardaloedd o weithgareddau gwahanol o amgylch yr ystafell. Mae'r arddangosfeydd o samplau o waith y plant yn cyfrannu at greu amgylchedd lliwgar. Mae'r ardal fechan awyr agored a mynediad i ardaloedd dysgu allanol yr ysgol gynradd yn darparu cyfleoedd priodol i'r plant ymchwilio a chwarae. Mae'r adeilad a'r safle yn lan a diogel.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

O dan arweiniad cadarn yr arweinydd, mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd trefnus a phwrpasol i'r plant. Mae'r holl ymarferwyr yn ymgymryd â'u rolau yn effeithiol sy'n cyfrannu at rediad llyfn y sesiynau. Maent yn rhannu gwerthoedd cytûn ac yn ymrwymedig i ddatblygiad a lles y plant. Maent yn sefydlu perthynas gadarnhaol gyda'r plant, eu rhieni a gofalwyr. Mae polisïau angenrheidiol yn cael eu gweithredu'n briodol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn ac wedi sefydlu perthynas dda gyda'r ymarferwyr. Maent yn rhannu'r un nodau ac amcanion o ran datblygiad y lleoliad.

Mae'r swyddogion yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol. Mae eu parodrwydd i ymuno gyda'r arweinydd mewn gweithgareddau hybu'r lleoliad yn y gymuned yn enghraifft o hyn. Mae system briodol ar gyfer gwerthuso gwaith yr ymarferwyr ac i adnabod eu datblygiad proffesiynol pellach.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi sylw addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg y plant a hybu arferion bwyta'n iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd wybodaeth sicr o brif gryfderau'r lleoliad. Mae'n ceisio barn y rhieni, athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin am waith y lleoliad. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu defnyddio'n briodol i gynllunio themâu a thrafod agweddau cyffredinol ar y ddarpariaeth. Er hyn, mae ystyriaeth fwy manwl i agweddau ar y cynllunio a'r dysgu yn elfen sydd heb ddatblygu'n llawn.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnig adolygiad cytbwys o'r ddarpariaeth. Mae'n nodi cryfderau'r ddarpariaeth yn ogystal ag amlygu agweddau penodol sydd angen sylw. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys blaenoriaethau priodol i symud y lleoliad yn ei flaen. Maent yn cynnwys datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant ymhellach. Mae'r ddogfen yn nodi targedau clir, ynghyd ag amserlen a chyfrifoldebau penodol er mwyn cyflawni'r targedau sydd wedi'u cynnwys. Mae'r cynllun yn cael ei weithredu'n briodol megis y sylw i ddatblygiad medrau llythrennedd cynnar y plant.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni drwy drafodaethau dyddiol a thrwy holiaduron rheolaidd. Mae polisïau a chanllawiau newydd yn cael eu trafod ymhellach gyda swyddog datblygu Mudiad Meithrin. Mae defnydd adeiladol o gyngor athrawes gyswllt yr awdurdod lleol wrth gyflwyno datblygiadau sydd yn gwella'r ddarpariaeth. Mae'r sylw i drefniadaeth ardaloedd gweithgareddau yn enghraifft o hyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaeth gadarnhaol iawn gyda rhieni a gofalwyr. Cadarnhawyd hyn yn y trafodaethau anffurfiol yn ystod yr arolygiad. Nodwyd lefel uchel o foddhad gan y rhieni gyda'r ffordd y mae eu plant yn ymgartrefu a'r cynnydd a wnânt tra yn y lleoliad. Caiff rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad drwy'r sgyrsiau dyddiol, yr hysbysfwrdd, posteri a chylchlythyron deniadol sy'n cynnwys enghreifftiau o brofiadau dysgu'r plant. Mae rhieni yn cael eu cynnwys mewn agweddau ar y themâu. Mae cynorthwyo'r plant i arsylwi a chwilio am drychfilod yn eu gerddi yn enghraifft.

Mae partneriaeth adeiladol gyda'r ysgol gynradd leol. Mae'r ymarferwyr a'r plant yn elwa o'r cyfleoedd i fynychu mabolgampau a chyngherddau ar y cyd â'r ysgol ac o'r defnydd o adnoddau a chyfleusterau dysgu. Mae'r cyswllt gyda'r pennaeth yn fuddiol o ran y trafodaethau am agweddau ar y ddarpariaeth megis y ffocws ar hybu medrau llythrennedd cynnar y plant. Mae'r cysylltiadau gydag ysgolion eraill yr ardal yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i'r plant i gyfnod nesaf eu haddysg.

Mae'r lleoliad yn elwa o'r bartneriaeth ag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddogion asiantaethau eraill, yn enwedig o ran yr arweiniad a'r gefnogaeth a ddarperir. Mae defnydd priodol o gysylltiadau gydag aelodau'r gymuned i ymestyn profiadau'r plant ac o'r cysylltiadau da gyda sefydliadau lleol o ran cefnogi gweithgareddau codi arian.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol ac mae defnydd cynhyrchiol o amser a medrau'r ymarferwyr. At ei gilydd, mae adnoddau dysgu yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyfleoedd hyfforddi perthnasol sydd yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau yn briodol. Maent wedi derbyn hyfforddiant addas ar ofynion y Cyfnod Sylfaen ac ar agweddau ar ddatblygiad a gofal plant. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd addas o'r cyfleoedd i ymweld â lleoliadau eraill i rannu profiadau ac arsylwi arfer dda.

Mae gan y trysorydd a'r arweinydd ddealltwriaeth sicr o'r gyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion y lleoliad. Mae defnydd effeithiol o ddigwyddiadau codi arian i ychwanegu at yr adnoddau.

O ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth, y profiadau dysgu a'r gofal a chymorth i blant, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |